

# Astudiaeth Achos Cynnal y Cardi ac Arwain Powys

## Digwyddiad Rhwydweithio Grwpiau Gweithredu Lleol

Daeth Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER (GGLL), Cynnal y Cardi o Geredigion ac Arwain Powys, ynghyd yn Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Aberystwyth (IBERS) ar gyfer digwyddiad rhannu gwybodaeth a rhwydweithio.


Roedd gweithgareddau'r dydd yn cynnwys Cyflwyniad i IBERS gan yr Athro Iain Donnison, teithiau amrywiol gan gynnwys y cyfleuster bio-fireinio, a BEACON ar y campws Arloesi a Menter. Roedd yn gyfle i aelodau o'r ddau GLLI ddysgu mwy am y cyfleusterau ymchwil yn IBERS a datblygiadau newydd cyffrous eraill sy'n digwydd. Roedd cyfle hefyd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y fenter Tyfu Canolbarth Cymru. Menter a allai ysgogi twf y ddwy economi leol.

Nod y diwrnod oedd dod ag Aelodau o'r ddwy ardal ynghyd i ddysgu mwy am gyd-destun ehangach datblygiadau yn y rhanbarth, a sut mae gan LEADER rôl wrth ategu'r gwaith hwn. Dywedodd Nick Venti, Is-gadeirydd Arwain Powys a Swyddog Datblygu yng Nghymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys, "roedd y digwyddiad yn fewnwelediad defnyddiol i'r rôl y gall prifysgolion ei chwarae wrth gynorthwyo datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd, a'r potensial ar gyfer mwy o arloesi technegol o fewn prosiectau posib a gefnogir neu a gomisiynwyd gan y GGLL wrth symud ymlaen."

Roedd y diwrnod hefyd yn gyfle i Aelodau ddod at ei gilydd, rhwydweithio a rhannu eu profiadau o fod yn Aelodau LAG. Canfu Kevin Harrington, Rheolwr Busnes a Datblygu Antur Teifi, fod y digwyddiad o fudd mawr i'r GGLL - yn enwedig o ran cwrdd ag aelodau eraill a gwneud cysylltiadau newydd.



Dywedodd Keith Henson Galluogwr Tai Gwledig "Mae rhwydweithio yn egwyddor allweddol o weithredu LEADER ac mae'r digwyddiad hwn wedi cryfhau'r cysylltiadau hynny rhwng y ddau GGLL ac wedi rhoi cyfle inni gael syniadau ffres a gwahanol safbwyntiau. Rwy'n gobeithio gweld digwyddiadau tebyg yn cael eu trefnu yn y dyfodol."



Gellid ystyried digwyddiadau yn y dyfodol i gefnogi Cynnal y Cardi ac Arwain. Cred Jackie Charlton, Cyfarwyddwr Dyffrynnoedd Gwyrdd Llangattock byddai "digwyddiad yn y dyfodol ar ddatblygu dinasoedd a darganfod sut y gellir gwneud cysylltiadau â chymunedau gwledig, yn enwedig wrth gysylltu gogledd a de Cymru ar draws y rhanbarthau canolog ac arfordirol gwledig."

Roedd llawer o fynychwyr gan gynnwys Catrin Owen, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Busnes, Tai Ceredigion hefyd yn credu y byddai'r GLLI yn elwa o ddod ynghyd i drafod y gweithgaredd LEADER y maent wedi bod yn rhan ohono.

O'r adborth a gafwyd gan fynychwyr roedd y digwyddiad rhwydweithio a rhannu gwybodaeth yn fuddiol i'r GGLL, mae'r aelodau a'u sefydliadau a'u bod yn awyddus am yr un nesaf.



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

